# Gwaith Ymchwil Manwl Ynni Adnewyddadwy – Cylch Gorchwyl

## Diben

Diben yr ymarfer yw nodi rhwystrau i gynyddu ynni adnewyddadwy yng Nghymru yn sylweddol a nodi camau i oresgyn y rhwystrau. Byddwn yn edrych ar gamau tymor byr, canolig a hir, ac wrth wneud hynny byddwn yn canolbwyntio'n benodol ar gadw cyfoeth a pherchnogaeth yng Nghymru.

Bydd yr ymchwil manwl yn:

- Ystyried maint y buddsoddiad mewn cynhyrchu ynni adnewyddadwy sydd ei angen i gyflawni dyletswyddau statudol Cymru.
- Nodi'r posibilrwydd o berchnogaeth gymunedol o fewn prosiectau cynhyrchu adnewyddadwy'r sector preifat a'r rôl ehangach i gymunedau weithio mewn partneriaeth â datblygwyr yng Nghymru.
- Ystyried sut i gynyddu'r budd i Gymru o ddatblygiadau sy'n eiddo masnachol, lle nad oes perchnogaeth.
- Ystyried maint y cyfle i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a arweinir gan y cyhoedd a'r gymuned yng Nghymru.
- Ystyried sut i gefnogi twf/datblygiad cynhyrchu ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r cyhoedd a'r gymuned yng Nghymru
- Herio'r sefyllfa bresennol ar gyfer cyflawni yng Nghymru a nodi camau blaenoriaeth i gefnogi mwy o gynhyrchu ynni adnewyddadwy gan gyrff cyhoeddus a grwpiau cymunedol yng Nghymru.

## Aelodaeth o'r grŵp

Bydd yr ymchwil manwl yn cynnwys grŵp craidd bach o feddylwyr beirniadol dan arweiniad y Dirprwy Weinidog dros Newid yn yr Hinsawdd, o'r sector a'r tu allan i roi mewnbwn a her. Bydd y Dirprwy Weinidog yn cadeirio cyfarfodydd, gyda'r ysgrifenyddiaeth yn cael ei darparu gan Lywodraeth Cymru. Dewiswyd yr Aelodau ar sail eu harbenigedd a'u profiad unigol; gan na ddylid dirprwyo presenoldeb o'r fath heb gytundeb y Dirprwy Weinidog.

| Enw | Sefydliad |
|---|---|
| Dr Jenifer Baxter | Protium Green Solutions |
| Pete Capener | Bath and West Community Energy |
| Dr Mike Colechin | Cultivate Innovation ac Aelod o'r Bwrdd Cynghori Hyblyg |
| Dr Jeffrey Hardy | Coleg Imperial Llundain |
| Andrew Jeffreys | Cyfarwyddwr Trysorlys Cymru, Llywodraeth Cymru |
| Sarah Jennings | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Anthony Kyriakides | Ymddiriedolaeth Arbed Ynni |
| Hywel Lloyd | Sefydliad Materion Cymreig |

| | |
|---|---|
| Dan McCallum | Awel coop |
| Sarah Merrick | Ripple Energy |
| Guy Newey | Energy Systems Catapult |
| Robert Procter | Ynni Cymunedol Cymru |
| Dr Nina Skorupska | Renewable Energy Association |
| Beth Warnock | Energy Systems Catapult |
| Dr Chris Williams | Clwstwr Diwydiannol De Cymru a Tata Steel |
| Dr Mike Jenkins | Llywodraeth Leol |
| Rhys Wyn Jones | Renewable UK Cymru |

Cefnogir y grŵp gan drafodaethau grŵp â ffocws lle bo angen sy'n cwmpasu pynciau penodol lle mae'r grŵp yn teimlo y byddai arbenigedd a barn ychwanegol yn ychwanegu gwerth. Bydd cwmpas y trafodaethau grŵp â ffocws hyn yn cael eu llunio gan gyfarfodydd cychwynnol y grŵp ymchwil manwl.

**Amseru**

Bydd yr ymarfer yn dechrau ym mis Hydref gyda chyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rheolaidd (dim mwy na dau yr wythnos) cyn toriad Nadolig y Senedd. Cyhoeddir canlyniadau'r adolygiad mewn Datganiad Gweinidogol cyn toriad y Nadolig.

Gall y grŵp gyfarfod yn achlysurol yn dilyn y datganiad hwn os nodir camau gweithredu sy'n gofyn am waith tymor hwy.

**Cyfathrebu**

Cynhelir trafodaethau yn y grŵp ar sail Chatham House ac ni fydd unrhyw ohebiaeth am ganlyniad terfynol y trafodaethau oni chytunir yn gyntaf â Llywodraeth Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r Cylch Gorchwyl hwn ac yn dosbarthu nodiadau cyfarfodydd i'r grŵp.